YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODION Y GOLYGYDD.
RHAI O HELYNTION HEN BREGETHWR A'I GYFOEDION.
TRICIAU AMSER.
FATHER CHRISTMAS.
URDD Y BENYWOD.
MARWGOF.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxvii

Ionawr, 1937

Rhif 1

YR YMOFYNNYDD

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

MYNNWCH GOPI O LYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

SYDD YN AWR YN EI AIL ARGRAFFIAD

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Siwt, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

Cyfrol xxxvii. IONAWR, 1937 Rhif 1.

DOS I'TH YSTAFELL——."

Pa enw bynnag roddir arno, gormes ydyw'r hyn sydd yn difodi personoliaeth yr unigolyn.—John Stuart Mill.

* * *

Mae pleser mor egwan a'r gwlithyn. Derfydd cyn iddo orffen chwerthin.—Rabindranath Tagore.

* * *

Ni all gweriniaeth godi yn uwch na lefel y defnydd dynol o ba un y gwneir hi i fynu.—G. B. Shaw.

* * *

Po hiraf y byddaf byw, deuaf i sylweddoli yn fwy-fwy, mai mewn gwaith mae ein nerth a'n hiechydwriaeth.—Katherine Mansfield.

* * *

Er i chwi gymell cenedl i aberthu ei nhwydau i'w chydwybod, bydd y canlyniadau eto yn dibynnu ar ba fath gydwybod sydd gan y genedl.—G. B. Shaw.

* * *

Yr hyn sydd yn nodweddu buddugoliaeth y Cristion ydyw mai peth mewnol ydyw ; nid buddugoliaeth enillir ar y pethau damweiniol o'r tu allan i ni, ond yn gyntaf ar y rhwystrau o'n mewn ac yna *ar ol* y rhwystrau mewnol a *thrwyddynt* ar bopeth allanol.—H. W. Foole.

* * *

Nid doethineb bychan ydyw bod yn ddistaw mewn drygfyd a throi at Dduw yn dy galon a pheidio gofalu am farn dynion. Ni âd i'th heddwch orffwys ar dafodau dynion, canys o'th farnant yn dda neu yn ddrwg nid wyt ti oherwydd hynny yn neb ond ti dy hun.—Isabella Fitz Margo.

* * *

Heb ryddid llafar, ni fydd chwilio am y gwirionedd yn bosibl. Heb ryddid llafar ni fyddai darganfod y gwirionedd yn ddefnyddiol. Heb ryddid llafar, atelid cynnydd, ac ni wnai'r cenhedloedd mwyach symud ymlaen tua'r bywyd godidocach hwnnw mae'r dyfodol yn ddal i ddynoliaeth. Gwell filwaith ydyw cam arfer rhyddid llafar na'i wrthod. Mae effaith y cam arfer yn darfod mewn diwrnod, ond mae'r gwrthod yn lladd bywyd y bobl ac yn claddu gobeithion dynolryw.—Charles Bradlaugh.

Neges Llywydd Cyfundeb yr Eglwysi Undodaidd 1937.

(Dr. H. McLACHLAN).

I holl aelodau ein Heglwysi a'n Hysgolion Sul—Blwyddyn Newydd Dda. Sut y gellir sylweddoli y gobeithion enynnir gan y dymuniad hwn yn 1937? Yn sicr nid oes ond un ffordd,—drwy ddarganfod dedwyddwch mewn gwasanaeth ac yn yr argyhoeddiad mai cydweithwyr gyda Duw ydym ni, canys yng ngeiriau Paul at y Rhufeiniaid (viii · 28) "I'r rhai sydd yn caru Duw, mae ef yn gweithio pob peth gyda hwynt er daioni." Daw golau mewn dyddiau dywyllir gan gymylau i'r rhai sydd a'u ffydd mewn Cariad di-dor a di-derfyn.

Nodiadau'r Golygydd.

Ofn a Gobaith.

Awgrymodd rhywun ar Ddydd Calan mai drwy "fuddugoliaeth Gobaith ar Brofiad" yn unig y gellir teimlo ar ddechreu 1937 fod ein manteision yn gorbwyso ein hanfanteision. Yn sicr blwyddyn gythryblus fu 1936 a graen garw ar y gorwel ar fachlud ei haul, a si anesmwyth yn awel ei hwyrddydd. Ofni clywed fod y gwallgofrwydd sydd yn anrheithio Sbaen annedwydd wedi lledu dros y cyfandir sydd yng nghalonnau dynion ac nid ofn disail ydyw hwn. Argraff llawer un a geisia ddarllen mor fanwl ac mor eang ag y gallo, ac a wrendy ar wir neges yr olwynion prysurach ydyw fod disgwyliad pendant y daw rhyfel ar ein gwarthaf yn 1937. Ond fel dymuniad Blwyddyn Newydd, dywedwn,—"Boed i sibrwd Gobaith fod yn fwy gwir na rhybudd Profiad". Nid oes ond Gobaith yn aros, y gobaith a seilir ar y gred fod dyn wedi ei greu ar lun a delw Duw, ac mai Rheswm a Gwirionedd a Chariad sydd i orchfygu yn y pen draw. Yn y pen draw, cofier, nid o angenrheidrwydd y funud hon, canys mae'n bosibl fod dyn wedi gwadu ei enedigaeth fraint yn rhy hir. "Ble bynnag y byddo y gelain, yno yr ymgasgl yr eryrod,"—ac os ydyw gwareiddiad heddiw yn rhy bwdr i'w hachub nid oes ond yr eryrod, ac aros nes y tyf bywyd newydd o lwch esgyrn yr hen. Mae perygl i bobl a ddyweedant bethau fel hyn yn rhy aml i ennyn y digofaint a syrth ar y

proffwydi a griant " Gwae, gwae " gan nad beth fyddo'r hin, ond er mai annymunol ydyw'r proffwydi hyn, maent yn llai peryglus na'r proffwydi a lefant " Heddwch, heddwch " pan nad oes heddwch. Ond erys Gobaith a thrwy obaith y'n hachubir.

Gyda llaw dyna oedd testun

Dr. Norwood

pan y pregethodd yng " Ngwasanaeth Dinesig " Caerdydd ar Ddydd Calan. Bu Dr. Norwood yn weinidog yn y City Temple am flynyddoedd, ond yn ddiweddar aeth ef a'r Parch. Lionel Fletcher allan i efengylu dros y wlad. Nid yn rhwydd yr af i wrando ar " efengylwr " proffesedig. Disgwyliaf glywed llawer am Waed y Groes a Gwaredwr a phethau sydd yn perthyn i ochr fwyaf annymunol Iawnffyddiaeth. Ond er syndod mawr i mi, ni chlywyd gair gan Dr. Norwood am y pethau hyn. Drwy obaith y'n hachubir meddai, a'r gobaith hwnnw yn cael ei gyfiawnhau gan yr adnoddau sydd ym mhersonoliaeth dyn ei hyn,—adnoddau sydd yno am fod Duw yn Gariad.

Yr oedd yr " efengyl " yma wrth fodd fy nghalon i, ond gofynnwn i mi fy hun, Beth yn y byd ddywedai yr hen efengylwyr am efengyl fel hon, heb sôn ynddi o'r dechreu i'r diwedd am Waed nac Iawn, ac yn wir beth ddywedir amdani heddiw gan fobl y seti mawr.

Cefais ateb chwerw mewn ychydig ddyddiau, er efallai i'r peth ddarllenwn amdano ddigwydd cyn y bregeth yng Nghaerdydd. Yr oedd Dr. Norwood wedi bod yn efengylu yn Llundain ac ychydig iawn yn dyfod i wrando. A dywedodd Dr. Norwood yn gyhoeddus fod yna *bropaganda* yn ei erbyn yn yr eglwysi am na chyfrifid ef yn " iach yn y ffydd ". " Yr wyf yn credu fod Crist yn Dduw," meddai, " Nid dyna a ddywedant wrthych a gredaf, ond dyna a gredaf."

Gyda llaw, pasiffist ydyw Dr. Norwood ond ni ddywedodd lawer am hynny yng Nghaerdydd, ond dywedodd rywbeth fel hyn,—ein bod (fel cenedl) yn fodlon heddiw aberthu crefydd a gwareiddiad a phopeth o werth er mwyn cadw ein tiriogaethau. " Nid gwareiddiad ydyw hyn," meddai, " ond barbariaeth ". Ond er mai gyda llaw y dywedodd hyn gellid meddwl o ddarllen y llith golygyddol yn y papur bore drannoeth nad oedd pregeth Dr. Norwood o'r dechreu i'r diwedd ond pasiffistiaeth ffyrnig. Yr ydym yn gyfarwydd a'r gwyrdroi digywilydd hyn gan wasg y brifddinas ond disgwyliwn yn well oddiwrth bapurau y wlad gan nad beth fyddo eu lliw gwleidyddol.

Heretic Arall.

Mae sôn am bobl nad ydynt yn iach yn y ffydd yn ein hadgofio am " heretic " arall fu farw flwyddyn neu ddwy yn ôl—y Parch. Frank Lenwood. Ysgrifennwyd hanes ei fywyd erbyn hyn a diddorol ydyw meddwl eilwaith am y llyfr nodedig hwnnw, " Jesus, Lord or Leader ? " Dyma ddywedai Lenwood yn ei lyfr—" Yn lle athrawiaeth ymgnawdoliad i godi problemau i ddyrysu meddyliau chwilgar, cawn, ar un llaw berson dynol a droediodd y llwybr droediwn ni, ac a gynorthwyodd ei gyd-ddynion i wybod sut un ydyw Duw ; ar y llaw arall, Dduw y Tad, yn fwy perffaith ac yn fwy tyner tuag at ei blant nag y gallai hyd yn oed Iesu fod ".

Y peth rhyfedd yw na fu fawr ddadleu ynghylch llyfr Lenwood ymysg ei frodyr iawnffyddol. Bu hyn yn siom i Lenwood, canys teimlai ei fod wedi codi cwestiwn hanfodol bwysig.

Dynion, nid Syniadau.

I'm tyb i nid oes ysgrifennydd craffach ei feddwl heddiw nag Aldous Huxley. Yn ei lyfr diwethaf mae ganddo draethawd nodedig yn dwyn y teitl—" Geiriau ac Ymddygiad ". Yn y traethawd yma dywed Huxley y gwneir rhyfeloedd rhwng gwledydd a gormes o fewn gwledydd yn bosibl pan y llwydda llywodraethwyr a gwleidyddwyr i'n gwneyd ni anghofio mai dynion fel ninnau ydyw'r Germaniaid neu'r Ffrancod neu'r Bolshis neu hereticiaid, neu pwy bynnag ddymunir i ni gashau. O feddwl am bobl eraill fel personau mae cwestiynau o foesoldeb yn codi, ond nid yw'r unben a'r gwleidyddwr yn hoffi moesoldeb.

Pa ddiben sydd mewn myned dros yr hen lwybrau drachefn ; gwnawn lwybrau i'r anhysbys.—*Thoneau.*

Ar brydiau mae'n prudd-der yn drymach nag y dylai fod oherwydd ein hunangarwch,—oherwydd i ni fethu llawenhau gyda'r rhai a lawenhânt.—*Mountford.*

Daw amser ar bob un ohonom pan y deffry ein hymwybyddiaeth o gyfrifoldeb, i geryddu ein dyhead am esmwythyd, i'n cymell i lamu o'n hunangarwch a'n diogi i fyned rhagom gyda'n holl nerth i wneyd pethau mawr os ydyw yn bosibl, neu o leiaf i fyw yn deilwng.—*Martineau.*

Ionawr.

COLOFN I'R IEUANC.

AR ddiwrnod teg o haf, crwydrodd bachgen deuddeg oed o sŵn a mwg y dref i fan tawel yng nghesail mynydd agos ; yno, o dan gusanau'r haul a'r awel syrthiodd i ber-lewyg a chafodd weledigaeth. Gwelai ei hun ynghanol torf fawr o bobl, hen ac ieuanc, o flaen porth agored. Gerllaw'r porth safai'r porthor a'i wallt a'i farf hirllaes cyn wynned a'r eira. Llifai'r dorf fel afon drwy'r porth, ac i bob un estynnai'r porthor docyn ac arno'r geiriau " Dewised pob un y ffordd a ystyrio'n ore ".

Tufewn i'r porth yr oedd gwlad eang a llwybrau aneirif i wahanol gyfeiriadau ; hefyd yr oedd llawer iawn o dywyswyr hunan-apwyntiedig yn annog yr ymwelwyr i'w dilyn hwy hyd lwybrau cyfoeth, enwogrwydd, anturiaeth neu bleser. Rhedai llawer o'r llwybrau yn syth i'r bryniau lle'r oedd temlau crefydd, gwybodaeth, celf, llên a chân, ond cymharol ychydig a ddewisai'r llwybrau hynny. Yr oedd tynfa'r mwyafrif i gwm afiach, lle'r oedd camlas leidiog a chwmwl tawchlyd yn codi ohoni i guddio glesni'r wybren. Taerai'r tywyswyr fod perlau a llwch aur yn gymysg a'r llaid, ac nad oedd gwir bleser i'w gael yn unlle arall. Ar waethaf y gweiddi, methodd y bachgen a gweld dim yno ond bryntni, a thrueni'r chwilwyr.

Crwydrodd o fan i fan yn y wlad ryfedd honno, er gweled a barnu drosto'i hun ; ac o hir sylwi a meddwl daeth i'r casgliad mai yn y temlau ar yr ucheldiroedd yr oedd porthiant meddwl ac enaid a gwir ddedwyddwch i'w cael. Yno yr oedd yr awyr yn glir, yr awel yn bêr, y dwyfol yn agos, calon y bydysawd yn curo wrth y glust, a'r llen rhwng y gweledig a'r anweledig yn deneu ac yn dryloew.

Rai misoedd ar ôl hyn, ac ef yn yr ysgol, dywedodd yr athro wrth y dosbarth mai ystyr y gair " Ionawr " oedd " ceidwad y porth " (o'r Lladin Janus, Januarius). Cofiodd am ei freuddwyd ac ystyriodd nad oedd ei weledigaeth ond arwyddlun o Ionawr y flwyddyn.

Ionawr sydd yn agor dôr y flwyddyn. Wedi i ni groesi'r trothwy egyr gwlad helaeth o'n blaen, ac arni rwydwaith o lwybrau yn ddigon i ddyrysu'r di-brofiad. Bydd llawer o arweinwyr doeth neu annoeth, da neu ddrwg yn cynnig ein tywys. Gwyliwn rhag y rhai sy'n addo llwyddiant neu bleser ar ffyrdd pechod.

Y mae Ionawr 1937 yn awr yn agor i ni rodfeydd newydd ym myd amser, ac yn cynnig cyfleusterau a thrysorau lawer. Gwyn fyd y rhai a ŵyr mai yn y temlau ar ur uchel-fannau y mae pob rhagoriaeth a dedwyddwch i'w cael.

ROBYN GOCH.

Rhai o Helyntion Hen Bregethwr a'i Gyfoedion.

VII.

METHAIS a gorffen y bennod ddiwethaf o fewn ei phriod derfyn. Sôn yr oeddwn am y cynhaeaf gwair ond nid ellir meddwl am y gwair heb gofio am y rhai a oedd yn ei drin. Ie, dynion distadl oedd y mwyafrif ohonynt ac eto yn ddynion gwasanaethgar iawn yn eu dydd a'u cymydogaeth. Teilyngant oll o leiaf eu henwi ; yn wir, hawliant deyrnged fwy. Dyma rai ohonynt—Evan Saer, Llethrcennin, dyn bywiog iawn, a thipyn o atal dweud arno, er hynny yn gystadleuydd mynych yn yr Eisteddfodau : William Crydd, dyn chwimmwth, dyn a mynd ynddo ; yr oedd yn perchen asen fach, fyw, fel efe ei hun, a threuliodd ei flynyddoedd olaf yn cludo glo a nwyddau eraill i'w gymydogion ; cyfarfu a damwain angheuol yn yr orsaf : Marged Dafis, New York, benyw fawr, ddefnyddiol iawn ar ben tas, a chanddi chwerthiniad iachus a ysgydwai ei hystlysau ac a glywid bellter ffordd : Mari Masiwn, benyw fwyn, garedig : Dafydd Llethrcoch, amaethwr wedi reteirio, gweithiwr dihafal na laddai dim ei ysbryd ; cofiaf am dano yn gweithio ar dyddyn fy nhad ar dywydd rhewllyd—tywydd pwrpasol iawn at fathau neilltuol o waith fferm ; aeth yn eira trwm ond er popeth a ddywedid wrtho ni fynnai Dafydd roddi i fyny, a gweithio a wnaeth hyd nes rhewi o'i ddwylo a digroeni : John Rees, Godre'rglyn, dyn mwy araf ac ysmala, ei hun gynt yn ffermio Talfoel ond bellach yn ddeiliad a beilihind i 'nhad ar y tyddyn ; cofiaf bos a roddodd i mi pan oeddwn yn hogyn a dyma fe—" fe osododd y cogydd un ŵydd ar y bêr, fe osododd y cogydd ddwy ŵydd ar y bêr, fe osododd y cogydd dair gŵydd ar y ber, pa sawl gŵydd a osododd y cogydd ar y bêr ? " Dibynnai'r ateb nid ar rifyddiaeth ond ar ddiffygion iaith ; nid allai holl wyddau'r byd roddi'r cogydd ar bêr.

Un o aelodau ffyddlon a deallus fy nhad oedd Griffith Jones Davies, Penlan (darlun) ; daethai ef i bictiwr y gwair ddydd y cywain, canys ceid benthyg ceffyl a chart ganddo. Saif Penlan ar fryn uwchben Cwmanne. Os ydyw yn noeth yno'r gaeaf, yn yr haf nid oes le brafiach, â'i olwg ar ddyffryn dihafal y Deifi. Yr oedd lletygarwch mawr hefyd ym Mhenlan.

Yr oedd Griffith a minnau yn gyfeillion mynwesol : treuliais nosweithiau lawer o dan ei gronglwyd a chyfyd llawer achlysur doniol i'r cof. Pe bai'n fyw, ni ddigiai fy hen gyfaill wrthyf am imi ddweud ei fod yn fwy o ddyfeisiwr nag o labrwr : cipiodd y wobr lawer gwaith yng nghystadleuaethau Adran Amaethyddol y

Brif Ysgol yn Aberystwyth am ddyfeisiau defnyddiol i amaethwr. Nid dim ond myfi a'i ystyriai yn ddyfeisydd cyfrwys yn hytrach na gweithiwr nerth-braich. Y mae tystiolaeth ei fam ei hun gennyf i ategu. Yr oeddwn ryw noson wedi myned i Benlan. Pan gyrhaeddais yno yr oedd Griffith yn cynllunio i sychu, drwy ryw ffordd anarferol, y pwll dŵr a oedd wrth dalcen y tŷ. Wedi imi fyned i'r tŷ dyma'r hen wraig yn gofyn i mi " A welsoch chi Griffith ni yn rhwle ? " " Do," meddwn innau, " y mae wrth ryw ddyfais i sychu'r pwll dŵr wrth dalcen y tŷ ". " O, ie, ie," atebodd hithau, " *rhwbeth* gyda Griffith ni ond caib a rhaw ". Dyna fe i'r dim, â'i fam ei hun yn tystiolaethu.

I 'nhad a minnau yr oedd ymweliad â Phenlan bob amser yn hynod o bleserus. Ryw dro cafwyd rhyw fath o gyngerdd ddifyfyr. Nid oedd Griffith yn ganwr ond, er syndod i bawb, ymgymerodd â chanu " Cân y Ceiliog mud ". Ni wyddai neb beth i'w ddisgwyl —yr oedd y syspens yn fawr—ond gwyddai pawb na chai ei siomi. Fe aeth Griffith i'r llwyfan (h.y. i ben cadair) gyda gosgedd ddifrifol cerddor byd-enwog, ac wedi iddo esgyn fe aeth drwy holl ystumiau ceiliog yn canu, gan ysgwyd ei adenydd ac ymestyn ei wddf ac agor a chau ei big ond heb gynhyrchu sain. Ni raid dweud iddo roddi bolonrwydd mawr ac iddo ennill cymeradwyaeth uchel y gwyddfodolion a chael banllefau byddarol.

Dro arall aeth y gyfeillach ar linellau gwahanol. Dechreuwyd adrodd ystorïau am gyfrwystra anifeiliaid a'u gallu i resymu. Dyma un o rai Griffith. " Gwyddoch," meddai, " am gae ———— ac fod ynddo hen gwarre bychan ". " Wel," ychwanegai, " yr oeddwn yn gweithio yn y cae ryw ddiwrnod ac ebolyn yn pori yn agos i ben ucha'r chwarel. Yr oedd wyneb y cae wedi ei orchuddio gan haenen denau o eira rhewllyd. Fe aeth yr ebolyn yn rhy agos i'r dibyn a llithrodd ei draed ôl odditano fel yr aeth ar ei barthau ôl benbwygilydd i'r gwaelod. Mwynhaodd ei brofiad yn gymaint fel y dychwelodd i'r top ac o'i wirfodd fe aeth drwy'r un *performance* eilwaith ". Rhy brin fyddai erthygl gyfan i adrodd y degwm a ellid am y cyfaill cywir a oedd mor llawn o gellwair ac arabedd.

Terfynai pob ymweliad â Phenlan fel hyn. " Ddo i lawr gyda chi i'r hewl fowr," meddai Griffith. Ond nid dyna'r diwedd— yr oedd bron yn amhosibl ymadael ; cerddem yn ôl a blaen o Gwmanne i Lanbedr, weithiau hyd berfedd nos. Treuliwyd llawer o ledr a phyllwyd peth ar y ffordd o'i cherdded gynifer o weithiau.

I ddychwelyd am eiliad i'r tyddyn. Yr oedd fy nhad yn hoff iawn o blant a phlant yn hoff ohono yntau. Yr oedd dau grwtyn bach yn treulio llawer o'u hamser gydag ef yng Ngodre'rglyn, adeg y cynhaeaf gwair a phrydiau eraill ; rhaid eu henwi—Dafi Daniel, mab Dafi'r Wagen a Jane ei wraig, a " Jones " ei frawd

maeth. Fel pob plant yr oeddent yn hoff o bryd oddicartref. Ryw ddiwrnod yr oedd un ohonynt yno amser cinio. Gofynnodd fy nhad iddo—" Odych chi wedi cal cino ? " Yr ateb annisgwyl a gafodd oedd " Nag w ; dw i ddim yn cal llawer i fyta gyda nhw, ond fe ges gwpwl o dato ddo ". Ni welais y naill na'r llall ohonynt er y dyddiau difyr, diofid hynny.

Gwleidyddiaeth.

Byddai fy nhad yn cymryd rhan mewn etholiadau gwleidyddol o leiaf oddiar Chwefror 1874. Yn y flwyddyn honno yn etholiad Sir Aberteifi rhwng Mr. T. E. Lloyd y Coedmor a Mr. Evan Mathew Richards cafodd brofiad digri a diddorol.

Yr oedd cigydd yn byw yn Llanbedr a adnabyddid yn gyffredin wrth y llysenw " Bwtsiwr Bach ". Un noson gofynnodd hwnnw i 'nhad beth oedd yn ei wneud ar gyfer yr etholiad. Gofynnodd yntau beth a oedd ganddo i'w wneud. Atebodd y Bwtsiwr Bach mai dyna un peth a oedd ganddo i'w wneud oedd myned i lawr i Dancoed, Llanwenog, i geisio gan y Parch. John Davies i weithio. Yr ateb a gafodd oedd y gweithiai Mr. Davies heb iddo ef ofyn iddo. Mynnai'r Bwtsiwr y gweithiai yn well ond iddo siarad ag ef. Yr oedd y cigydd yn barod ac yn awyddus i gludo 'nhad i Dancoed yn rhad yn ei gerbyd bychan y noson honno.

Wedi i 'nhad fyned adref i hysbysu lle y byddai aeth yn ei ôl at y cigydd, yr hwn oedd erbyn hyn wrth y gwaith o dynnu'r car bach allan o'r hen *Down Hall*—nid oedd y Neuadd bresennol wedi ei hadeiladu yr amser hwnnw—a thwr o blant yn ei boenu trwy waeddi " *red* ". Gorchymynnodd i 'nhad fyned ymlaen am nad oedd yn ffit at daclau felly. Yn fuan goddiweddodd y cigydd ei gydymaith. Meddai'r Bwtsiwr ar ôl iddynt ill dau fyned i'r cerbyd, " nawr dim gair wrth neb : dyna fel y byddai Huwsiaid y Neuadd yn gweithio ".

Yr oedd yn noson olau brâf a phawb yn adnabod y Bwtsiwr Bach. Bron gyda iddo orffen " dim gair wrth neb " gwaeddodd rhywun " *red* " o gesail y clawdd. Felly y bu hyd nes myned i ardal Llanwnnen ac yr oedd tewi wrth glywed y gair " *red* " yn brofedigaeth rhy gref i'r cigydd. Wedi hynny cafwyd llonydd. Wrth agoshau at dafarndy Penpompren, Llanwenog, gofynnodd y gyrrwr pa un oedd yn orau—myned heibio i'r dafarn yn ddistaw ynte aros i roddi dwfr i'r merlyn ? Cynghorwyd ef i fyned yn ei flaen ond gyferbyn a'r tafarndy tynhaodd yr awenau a gwaeddodd, " we ". Y mae'n bosibl fod syched ar y cigydd (yn gystal a'r merlyn) ar ôl ei ymdrech yn ateb y " *reds* " ar y ffordd. A chan fod cwrdd ceidwadol wedi ei gynnal yn y lle y noson honno a nifer o bobl wedi aros i dorri eu syched hwythau teimlai'r cigydd efallai fod ganddo genadwri boliticaidd bwysig iddynt. Modd bynnag

GRIFFITH J. DAVIES
Penlan

anghofiodd yn llwyr ei bod yn oer i'w gydgenhadwr a'r merlyn y tu allan.

Nid oedd Tancoed ymhell ac wedi ailgychwyn cyrhaeddwyd yno yn y man. Yr oedd Mr. Davies yn ei wely ond bu rhaid iddo godi. Wedi mynegi'r trefniadau a wnaed i gyhoeddi'r cyfarfod rhyddfrydig yng Nghwrtnewydd nos trannoeth dywedodd Mr. Davies na ddisgwyliai gwrdd llwyddiannus am fod pobl yr ardal yn rhy gyfarwydd ag ef fel siaradwr. Dymunai am help o Lanbedr. Nid allai fy nhad ar y pryd ond addo bod yno ei hun. Ond wedi hynny penderfynodd anfon telegram i Gwilym Marles. Erbyn trannoeth yr oedd Mr. S. Richards, mab yr ymgeisydd rhyddfrydig, wedi dod i Lanbedr ac aeth i Gwrtnewydd a chydag ef fyddin grêf ac yn eu plith Weinidog Capel Erw, Cellan ; Gweinidog Soar, Llanbedr ; a Gweinidog Brondeifi. Wedi cyrraedd y Cwrt cafwyd fod Gwilym Marles a'r Parch. Thomas James, Gweinidog y Methodistiaid yn Llandysul, yno'n barod a phan ddaeth yn amser dechrau aethant i Ysgoldy Capelybryn.

Bychan oedd y cynulliad a'r siaradwyr fel pe'n ymdrechu bod am y gwaelaf, gydag eithrio Mr. S. Richards. Siaradodd ef yn ardderchog ond yn Saesneg. O'r diwedd gofynnwyd a oedd rhywun yn barod i gynnyg ymgeisydd a chynygiwyd ac eiliwyd Mr. Evan Mathew Richards yn ymgeisydd rhyddfrydig. Gofynnwyd wedyn a oedd yna gynygiad arall a chododd gŵr dylanwadol i gynnyg Mr. Lloyd, Coedmor fel ymgeisydd ceidwadol a siaradodd ychydig o'i blaid. Cododd Mr. S. Richards a dywedodd y byddai'n dda ganddo ateb y boneddwr pe medrai Gymraeg ond fod Mr. Thomas (Gwilym Marles) wedi addo gwneuthur hynny yn ei le. Neidiodd Mr. Thomas ar ei draed a deffrodd frwdfrydedd eiddgar y gynulleidfa gan rym a huodledd ei araith. Fe glywodd fy nhad Mr. Thomas lawer gwaith yn pregethu ac areithio ond ni chlywodd ef erioed yn siarad yn debyg. Siarad yn dawel a phwyllog y byddai ef yn arferol, er mai nid hwn oedd y tro cyntaf iddo esgyn i uchelfannau.

Cof gan yr ysgrifennydd presennol glywed i'r gŵr a gefnogodd Mr. Lloyd gyfeirio'n sarhaus at fagiad Mr. Thomas ar sêt y crydd ac iddo yntau ateb y gŵr a'i gwatwarodd rywbeth yn debyg i hyn—"y mae'n eithaf gwir i mi gael fy magu ar sêt y crydd a phe bai dy ben di ar f'ysgwyddau i ar sêt y crydd y byddwn heddi". Gwelir i Mr. Thomas siarad yn llym a thybiwyd na chafodd ei ddiystyrrydd y fath grasfa yn ei oes.

I FWYNHAU gwir ddedwyddwch rhaid i ni deithio i wlad bell iawn—allan o honom ni ein hunain.—*Syr Thomas Browne.*

Triciau Amser.

Ganol nos yn nyfnder gacaf ganwyd geneth fechan ddiymadferth ac egwan, heb fawr o wres yn ei gwaed, ac heb fawr o olau yn ei llygaid. Yn anffodus, bu mam yr un fechan farw ar ei genedigaeth.

Disgynnodd y baban i le digon llwm a llwyd, lle nad oedd fawr o gysuron bywyd i'w derbyn ; yr oedd y cwpwrdd yn ddigon gwag, a'r aelwyd yn ddigon oer. Nid oedd yno glustogau esmwyth o blu i orwedd arnynt, na charpedi cynnes i dyneru oerni'r llawr, ond yn unig garped o eira claerwyn yn cuddio llwybrau'r ardd.

Anniddan ac anniddig oedd yr eneth yn nyddiau ei mebyd. Weithiau byddai'n bloeddio drwy'r nos, fel na allai neb gysgu. Bryd arall byddai'n wylo'n hidl drwy'r dydd, fel na allai neb weithio. Yr oedd mor ddiraen ei golwg, ac mor ddrwg ei thymer, fel na fedrai neb serchu ynddi.

Ar waethaf ei holl ffaeleddau, tyfu wnaeth y plentyn, a chyda'r tyfiant daeth cyfnewidiad mawr. Rhoddodd y dymer ddrwg le i dymer fwy llednais. Nis clywid yn bloeddio yn y nos bellach, ac ni wylai gymaint yn y dydd, eithr gwelid rhyw sirioldeb a nwyfiant yn ei meddiannu, a gwelid arwyddion tlysni yn ei threm, ac ni ddeuai neb i gyffyrddiad â hi heb deimlo rhyw londer yn ei galon. Erbyn cyrraedd ohoni oedran merch ieuanc, synnid pawb gan ei phrydferthwch. Yr oedd gwrid y rhosyn ar ei grudd a glesni'r ffurfafen yn ei llygad a modrwyau o aur yn ei gwallt. Gwisgai wisg werdd newydd, gydag ymylwe o rosynau coch a gwyn, a gwisgai goronbleth o lili'r dyffrynnoedd ar ei phen. Hudai ei swyn yr haul o'i guddfan. Ymdaenai blodau amryliw yn gwrlid o dan ei throed. Canai holl adar y nefoedd i'w hadlonni. Suai'r gwenyn yn y tês, dawnsiai'r gornant ar y gro, a dotiai pawb a phopeth ar gwmni'r feinwen.

Rhodiai hithau'n ysgafn dros y bryniau a thrwy'r gweunydd, a'r gwawn yn hofran yn chwareus uwch ei phen.

Yr oedd yn lled " fodern " yn ei holl syniadau. Credai mewn hedfan, a phob math o wibiau. Credai mewn ysmocio a dawnsio. Coleddai rhyw gymysgfa ryfedd o syniadau parthed gwleidyddiaeth. Ychydig ddiddordeb gymerai mewn pethau crefyddol. Eto i gyd, carem hi.

Gydag amser, pasiodd tymor ei hieuenctid. O'r fath drychineb. Gwelid y gwrid yn graddol gilio o'i gruddiau, a'r disgleirdeb yn diflannu o'i llygaid, a gwelid aur ei gwallt yn troi'n arian. Diflannodd ei swyn. Aeth yr haul yn ôl i'w guddfan, gwywodd y blodau, distawodd yr adar, a gwgodd y gornant.

Yn awr gwelid arwyddion henaint yn goddiweddyd y ferch. Byrhau wnai ei cham, gwelwi wnai ei grudd a phyli wnai ei llygad.

Wele hi'n gwanychu'n raddol o ddydd i ddydd. Hawdd yw gweld yn awr fod angau wedi cyhoeddi ei ddedfryd uwch ei phen. A dyna lle'r ydym yn gwylio ei symudiadau ac yn ceisio ei thynnu'n ôl o afael angau, ond yn ofer.

Un noson, fel yr oeddwn yn gwylio, gwelwn fod y diwedd yn agoshau. Rhuai'r gwynt yn y simnai, a disgynnai'r glaw ar y tô. Yn nistawrwydd oeraidd yr ystafell, dychmygwn weld cysgod yr angau ymhob congl ohoni. Cyn hir, tarawodd yr hen gloc mawr ddeuddeg. Taflodd y ferch druan un drem o gwmpas yr ystafell, yna cauodd ei llygaid yn ei hun olaf. Gyda theimladau pur gymysglyd rhaid oedd i mi roi ffarwel i'r "Hen Flwyddyn" annwyl.

A. Rees.

Father Christmas.

[Stori i'r Plant.]

Ar ysgwydd y mynydd moel safai bwthyn tô gwellt fel pe yn gwylio cyfrinion y bannau. Yn y bwthyn trigai hen wraig unig o'r enw Jane Jones, ond a adnabyddid yn gyffredinol wrth yr enw Shani.

Ni feddai Shani gymydog, ond ni hidiai am hynny. Cyfrifai hi y grug a'r eithin mân, a'r defaid a borent rhwng y twmpathau yn gymydogion ac yn gyfeillion, oherwydd treuliasai ei holl fywyd yn eu plith.

Pan fyddai eisiau nwyddau groser ar Shani, byddai'n rhaid iddi gerdded yn agos i ddwy filltir ar hyd llwybrau garw'r mynydd i siop y pentref yn y dyffryn islaw.

Un prynhawn tywyll cyn y Nadolig diwethaf gwelid Shani'n gadael ei bwthyn unig gyda basged ar ei braich, ac yn cychwyn ar ei thaith i siop y pentref. Byddai Shani'n galw i weled cyfeillion bore oes bob tro yr ymwelai â'r pentref, ac ni fu'r prynhawn yma'n eithriad. Erbyn iddi orffen siopa a chael clebran a'i chyfeillion, yr oedd y dydd yn dirwyn ymlaen, a chysgodau'r hwyr yn dechrau disgyn, ond cychwynai Shani tua thref yn hapus a chalonnog.

Ar ôl iddi fynd am ychydig bellter o'r pentref, dechreuodd yr eira ddisgyn yn ddyfal, ddyfal. Aeth teithio'n fwy beichus; glynai'r eira wrth esgidiau'r hen wraig nes peri iddi lithro a thalgwympo yn barhaus, ac yr oedd pwysau'r fasged yn mynd yn dreth ar ei nerth. Bu'n meddwl troi'n ôl i'r pentref i ofyn am help i gario'r fasged, ond ar y foment gwelai dri bachgen bach yn dod yn ei herbyn gan ganu un o garolau poblogaidd y Nadolig ar dop eu lleisiau. Bechgyn bach o'r pentref oeddynt, wedi bod

yn chwilio am gelyn i wisgo eu cartrefi erbyn y Nadolig. Jim a Tim a Tomi oedd eu henwau, ac nid oedd yr un ohonynt dros ddeuddeg oed. Cariai pob un ohonynt faich o gelyn coch braf ar ei gefn.

Gofynnodd yr hen wraig yn wylaidd a fyddai un ohonynt mor garedig a'i helpu hi i gario'r fasged am ychydig bellter. Dywedodd Tim yn swta fod eisiau arno ef fynd adref i gael ei dê. Dywedodd Jim fod yn rhaid iddo ef fynd â'r celyn adref i wisgo'r tŷ. Ond dywedodd Tomi bach, yr ieuaf o'r tri, y gwnai ef ei helpu ac ar ol rhoi ei faich celyn ar bwys y clawdd hyd nes y deuai'n ôl, cymerodd y fasged oddiwrth Shani, ac a aeth gyda hi. Disgynnai'r eira o hyd yn ddyfal. Ar ôl mynd tua hanner y ffordd i'r bwthyn, dywedodd Shani y gallai hi gario'r fasged am y gweddill o'r daith, ac y byddai'n well i Tomi fynd adref am ei bod yn nosi.

" Na," meddai Tomi bach dewr, " mi ddeuaf gyda chwi bob cam, fyddaf fi ddim yn hir yn rhedeg adref ".

O'r diwedd, cyrhaeddasant y bwthyn. Diolchai Shani o galon i Tomi am ei garedigrwydd, a chan estyn darn tair ceiniog iddo, dywedodd wrtho am ofalu cadw ar y llwybr wrth fynd adref rhag iddo golli'r ffordd yn y gwyll.

" O, mi af fi'n ôl yn iawn " meddai Tomi, ac wedi dweyd " Nos da," aeth i ffwrdd gan chwibanu'n hapus.

Nid oedd y daith tuag adref mor hawdd ag oedd Tomi wedi meddwl. Nid hawdd ydyw ffeindio cyfeiriad pan fo eira'n gorchuddio popeth, gan fod pob man yn edrych yr un fath, ac nid oedd Tomi yn gyfarwydd â llwybrau'r mynydd. Cerddodd ymlaen gorau y medrai, ond ni wnai lawer o gynnydd, am fod yr eira'n casglu am ei esgidiau a rhaid oedd iddo aros yn awr ac yn y man i'w gicio i ffwrdd. Disgwyliai gyrraedd y ffordd fawr bob munud, ond nid oedd sôn am dani. Cerddai a cherddai, heb sylweddoli ei fod yn cerdded yn y cyfeiriad ' rong ' ers amser.

Cyn hir teimlai bron yn rhy flinedig i roi un droed heibio'r llall, eisteddodd ar bwys clawdd uchel, a thorrodd allan i wylo'n druenus, oblegid credai erbyn hyn ei fod wedi colli'r ffordd, ac na welai ei gartref byth mwy. Wylodd nes bod ei galon fach ar dorri. Gwelai mewn dychymyg Jim a Tim yn eistedd o flaen tân cysurus mewn ystafell gynnes, tra'r oedd ef yn rhynnu yn yr eira yn unigedd y mynydd, a'i goesau bach yn rhy ' stiff ' a blinedig i symud cam. Tynnodd un ochenaid fawr, yna gosododd ei ben i orffwys ar glustog oer o blu gwyn y ddrycin, mewn lludded llwyr.

Cyn hir, meddyliodd iddo glywed rhyw sŵn fel sŵn clychau yn y pellter. Fflachiodd gobaith yn ei lygaid llaith. Gwrandawodd yn fwy astud, ond ni chlywai ddim. Diflannodd y gobaith o'i lygaid, a thorrodd allan i wylo drachefn. Meddyliodd mai ei ddychymyg â'i twyllodd y tro cyntaf. Ust ! dyna sŵn y clychau eto, swniant yn nes. Cyn hir gwelai rhyw olau gwan yn nesu ato,

a chlywai'r clychau'n tincian yn siriol, bron ar ei bwys. Cododd ar ei draed a gwelodd garllusg (sleigh) a lusgid gan ddau garw heini yn aros o'i flaen. Yn y car llusg eisteddai hen ŵr, caredig yr olwg, â gwên ar ei wyneb, a barf wen hir ar ei ên, a mantell goch hardd am dano, a'r awenau yn ei ddwylaw. Dywedodd yr hen ŵr mewn llais tyner " Dere yma Tomi ".

" Pwy ydych chwi, syr," gofynnai Tomi, braidd yn ofnus, a'i ddannedd yn rhincian gan yr oerfel.

" Father Christmas ydwyf fi," atebai'r hen ŵr.

" Sut gwyddech chwi fy enw," gofynnai Tomi.

" O ! 'rwyn adnabod y plant i gyd," ebai Father Christmas.

" Ble'r ydych chwi'n mynd nawr ynte ; a ydych chwithau wedi colli'r ffordd hefyd ? " gofynnai Tomi.

" Nac ydwyf fy machgen, ond gwyddwn dy fod ti wedi colli'r ffordd, ac yr wyf wedi dod i'th gludo adref at dy fam a'th dad," atebai Father Christmas.

" Sut gwyddech chwi ble'r oeddwn ? " gofynnai Tomi.

" Nid oes dim na wn i am holl blant y byd " meddai'r hen ŵr. " Ti yw'r bachgen caredig a wnaeth gymwynas â'r hen wraig unig sy'n byw yn y bwthyn ar y mynydd. Gwn fod Jim a Tim wedi pallu ei helpu i gario'r fasged hefyd," meddai.

" Tyrd i fewn i'r cerbyd, yr wyt bron a rhewi " ebai Father Christmas.

Aeth Tomi i fewn ar unwaith ac fe eisteddodd wrth ochr yr hen ŵr. Lapiodd Father Christmas ran o'i fantell gynnes am ysgwyddai Tomi, a dywedodd wrth y ceirw am gychwyn, ac i ffwrdd a hwy fel mellten dros y meysydd a'r cloddiau a'r perthi heb betruso.

Fydd Father Christmas, nag un dyn caredig, byth yn defnyddio chwip at garw na cheffyl, rhag ofn eu dolurio.

Gwresogodd Tomi ar ôl cael y fantell drosto, ac wrth weled y ceirw yn rhuthro trwy'r eira a chlywed tinc siriol y ' sleigh-bells ' ni allai lai na mwynhau'r anturiaeth er gwaethaf ei flinder. Cyrhaeddasant y pentref mewn ychydig amser. Tynnodd sŵn y clychau y pentrefwyr oll i'r drysau, oblegid nid oedd neb wedi gweled Father Christmas a'r ceirw o'r blaen, gan mai yn y nos y byddant yn dod bob amser, pan fod pawb yn cysgu, a mawr oedd y cyffro yn y pentref.

Safodd y ceirw o flaen tŷ Tomi, lle'r oedd nifer o bobl wedi bod yn chwilio am dano. Pan welodd Jim a Tim ef yn y ' sleigh ' gyda Father Christmas teimlent yn flin na fuasent hwy wedi mynd i helpu'r hen wraig.

Disgynnodd y ddau o'r cerbyd. Aeth Father Christmas at ben ôl y ' sleigh ' lle yr oedd sach fawr yn llawn o deganau ac anrhegion Nadolig. Agorodd y sach a thynnodd allan ddeurod (bicycle) a phêl droed fawr, a blwch lliwiedig hardd, ac a'u rhoddasant i

Tomi. Meddyliodd Tomi mai melusion oedd yn y blwch, ond ar ol ei agor gwelai rywbeth yn disgleirio fel grisial. Dywedodd Father Christmas wrtho mae perlau gwerthfawr oeddynt, ac fod yno berl am bob deigryn gollodd ar y mynydd, " mae caredigrwydd bob amser yn dwyn gwobr o ryw fath " meddai.

Ni fu Tomi byth yn dlawd wedi hynny.

Chafodd Tim a Jim ddim ganddo.

Clywodd plant y pentref i gyd fod caredigrwydd yn teilyngu gwobr, ac o'r noson honno, rhedent oll am y cyntaf i wneud cymwynas lle y gwelent ei angen, a daeth y pentref yn un o'r rhai mwyaf brawdol yn y wlad, a hynny oblegid esiampl un bachgen bach caredig.

A. Rees.

Urdd y Benywod.

Cynhaliwyd y chwechfed o gyfarfodydd blynyddol Urdd y Benywod yng Ngalltyblaca ar brynhawn Sadwrn, Tachwedd yr 28ain. Awd drwy Wasanaeth yr Urdd gan Mrs. Evans, Ffoshelig. Wedi hyn gweinyddwyd y Cymundeb gan y Parch. S. Evans Bowen. Yn ei anerchiad apeliai am ragolwg mwy ysbrydol ar fywyd. O esgeuluso hyn mae perygl i ni golli golwg ar bethau gorau bywyd.

Yr oedd nifer dda wedi dod ynghyd o'r gwahanol gymydogaethau. Llywyddai Miss Evans, Ffynonfair, ac yn ei haraith ymadawol estynodd groeso i'r aelodau a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth a'u cydymdeimlad drwy'r flwyddyn—blwyddyn o waith da a chynnydd. Adgofiai yr aelodau mor bwysig oedd agwedd ddefosiynnol y mudiad, ar hyn yr oedd bywyd yr Urdd yn dibynnu. Mynegodd ei llawenydd o weled Mrs. Park Davies a chyfeillion o Gaerfyrddin yn bresennol, hefyd y gweinidogion, am fod eu cefnogaeth hwy mor angenrheidiol.

Derbyniwyd llythyron oddiwrth Miss Lee a Mrs. Bowen yn datgan gofid am fethu bod yn bresennol.

Yr oedd adroddiadau y gwahanol ganghennau yn wir ddiddorol ac yr oedd yr adroddiad ariannol yn foddhaol.

Trefnwyd i gynnal cyfarfod nesaf y pwyllgor gweithiol yng Nghapelybryn ar y chwechfed o Fawrth, a'r cyfarfod blynyddol nesaf ym Mhantydefaid ar y chwechfed o Dachwedd.

Cafwyd adroddiad llawn gan Mrs. Jones, Y Bryn, o'i hymweliad â Chynhadledd Flynyddol yr Urdd. Dywedodd ei bod hi yn un o chwech cant o fenywod oedd yno o bob rhan o'r wlad, ac yr oedd y diddordeb mawr gymerid yn yr Urdd wedi gwneyd argraff mawr arni. Gobeithiai y byddai cynrychiolydd o Geredigion yn y gynhadledd bob blwyddyn.

Am y dethlid canmlwyddiant Allen Raine yn ddiweddar cafwyd anerchiad ar y nofelydd enwog gan Miss Jones, Gellifaharen. Yr oedd hi wedi bod mewn cyfeillach agos ag Allen Raine am hir amser, felly gallai adrodd rai ffeithiau nas gwyddid amdanynt yn gyffredinol.

Ar ran yr Urdd cyflwynodd Miss Evans, y llywyddes, rodd briodas o arian i Mrs. Davies, Felinfach, yr ysgrifenyddes, fel cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth. Diolchodd Mrs. Davies i'r aelodau am eu caredigrwydd, a dywedodd y gwnai ddefnydd teilwng o'r arian drwy brynu cadair esmwyth i orffwys ynddi yn ei hychydig oriau segur. Yno, yn sicr, gallai feddwl yn hapus am ei chysylltiad ag Urdd y Benywod.

Etholwyd y swyddogion am 1937 fel y canlyn:—Llywydd, Mrs. Davies, Faerdre; Is-lywydd, Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol; Ysgrifennydd cyfeillachol, Miss Jones, Gellifaharen; Trysorydd, Mrs. Jenkins, Barclays Bank, Llanybydder; Ysgrifennydd, Mrs. Davies, Felinfach,—y tair ddiwethaf fel o'r blaen.

Cafwyd te yn yr ysgoldy ar ôl y cyfarfod.

K.J.

Marwgof.

Rhagfyr 16, ar ôl ychydig gystudd, JOHN JONES, Sunny Hill, Pisgah, Talgarreg yn 68 oed. Mab ydoedd i'r diweddar Thomas a Mary Jones, Henbant, Talgarreg. Yr oedd yn un o deulu lluosog, teulu fu—cyn iddo gael ei wasgaru—o wasanaeth mawr gyda'r achos yng Nghapel-y-Fadfa yn enwedig gyda'r canu. Yr oedd efe yn feddiannol ar lais tenor pur dda ond oherwydd pellder ffordd a'r amgylchiadau gartref nid oedd wedi gallu dangos yr un ffyddlondeb yn y capel ag yn yr hen ddyddiau. Collodd ei briod yn gynnar ar ôl bod yn briod am dymor byr iawn, a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn yr Henbant yn amaethwr gyda'i dad ac wedi i'r annwyl Thomas noswylio, gyda'i ddwy chwaer. Ychydig flynyddoedd yn ôl ymneillduodd ef a'i chwaer i'r Sunny Hill,—tŷ a saif ar gornel fferm yr Henbant. O'r teulu lluosog dim ond tair chwaer sy'n aros heddyw. Cyflwynwn ein cydymdeimlad iddynt hwy ac i'w ferch. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym mynwent Capel-y-Fadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins; H. Ponsford (E), Talgarreg; D. R. Thomas (A), Llwyncelyn a G. Morris (A), Pisgah.

Nodion yr Eglwysi.

DIOLCH. Diolch yn fawr i'r cyfeillion hynny fu mor garedig a danfon hen Ymofynyddion i mi. Mae y rhai a ganlyn yn eisiau arnaf eto: 1847 Medi; 1848 Gorffennaf; 1862 Tachwedd; 1875 Gorffennaf; 1877 Gorffennaf a Medi; 1878 Gorffennaf; 1919 Mawrth a Mehefin; 1931 Rhagfyr. Byddaf yn wir ddiolchgar am gopiau o'r uchod.—E. O. Jenkins, Llwynmarles, Llandysul.

PANTYDEFAID. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor gan Urdd y Benywod, Tachwedd 4 pan y rhestrwyd saith-ar-ugain o aelodau. Etholwyd Mrs. Davies, Faerdre yn llywydd, Mrs. Davies, Sychdy yn drysorydd a Miss Thomas, Penarwel yn ysgrifennydd. Rhoddwr caredig y Te oedd y Llywydd. Cafwyd cyfarfod ilwyddiannus hefyd Tachwedd 17, gyda Miss Owen o'r Ysgol Sir yn beirniadu ar y deisen orau. Y buddugol oedd Mrs. Davies, Faerdre.

GRAIG, LLANDYSUL. Nos Lun, Rhagfyr 7, cynhaliwyd cyfarfod pwysig a diddorol yn Festri'r Graig dan lywyddiaeth ein arweinydd a'n cyfarwyddwr parchus, Mr. Thomas, Spring Gardens. Prif amcan y cyfarfod oedd anrhegu y Parch. E. Griffith Jones, Gweinidog Capel-y-Groes a Chribyn â swm sylweddol o arian fel dangoseg o werthfawrogiad Eglwys ag Ysgol Sul y Graig o un o'i phlant. Mae i Mr. Jones enw da yn ein plith ; a'n gobaith a'n gweddi a'n hyder yw y bydd iddo weinidogaeth hapus a llwyddiannus yn ei gartref newydd. Rhoddwyd y Te yn rhad gan gyfeillion y Graig a chafwyd cyngerdd diddorol gan y plant ag eraill.

LLWYNRHYDOWEN [Urdd y Benywod].—Nos Fercher, Tachwedd 11, agorwyd tymor y gaeaf yma gyda "Social Tea". Rhoddwyd y wledd—a gwledd odidog oedd—gan Mr. a Mrs. Lloyd, Blue Bell, Llandysul, dau a fagwyd yma a dau sy'n cofio'r achos o flwyddyn i flwyddyn er wedi symud o'r ardal ers tro maith. Yr oedd y wledd yn agored i bawb drwy dalu a'r elw'n mynd i Drysorfa'r Urdd. Daeth tyrfa dda ynghyd a chafwyd tair awr ddymunol i'r eithaf. Yr oedd yn hyfrydwch gan bawb i gael cwmni Mrs. Lloyd am dro. Adgofiai ei phresenoldeb y rhai hynaf o honom o'r gwasanaeth gwerthfawr roddodd ei rhieni—John a Nancy Jones—gyda'r canu'n y lle a hynny am flynydd-oedd lawer—hi'n flaenllaw fel Soprano ac yntau gyda'r Bass. Hyd nes iddi adael yr ardal bu Mrs. Lloyd ei hun yr un mor ffyddlon. Cyflwynwyd diolch cynnes iddynt dros yr Urdd gan Miss Jones, Gellifaharen, Mrs. Davies, Dewi Villa a Mrs. Jones, Gelliaur a thros y gynulleidfa gan y Gweinidog.

Mae rhai munudau mewn bywyd sydd yn werth rhoddi bydoedd am danynt.—*Fielding.*

Ni ataliwyd Paul rhag ysgrifennu llythyr at ychydig o gyfeillion yng Nghorinth am na allai ragweld y dydd pan y gelwid y llythyr hwnnw yn Epistol Cyntaf Paul at y Corinthiaid.—*A. A. Milne.*

Pryd bynnag yr ymddangoso personoliaeth gwir greadigol yn y byd mae y Gallu o'r tu ôl i'r bydysawd nid yn unig yn mynegu o'r newydd ryw elfen yn ei natur ei hun, mae yn creu rhywbeth newydd.—*Streeter.*

Tynghedir ni i gymundeb tragwyddol â ni ein hunain. Ai cymundeb â hunan a gasawn ac a ddirmygwn a fydd neu ynte gymundeb â hunan fedrwn edrych arno gyda llawenydd a diolch-garwch ?—*Peabody.*

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. Mc LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. **7/6** net (by post **8/-**). Leather bound, gilt edges, **10/6** (by post **11/-**). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price **1/-** (by post **1/1**). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price **1/-** (by post **1/1**). Cloth, **2/-** (by post **2/2**).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price **6d.** (by post **7d**).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. **1/-** each (by post **1/1**).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.



Cecil Jones,

F.B.O.A.,
F.S.M.C.,
F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.